## Costau busnes a staffio i gefnogi gwaith yr Aelodau

Mae Aelodau o'r Senedd yn rhannu eu hamser rhwng ymgymryd â dyletswyddau seneddol yn y Senedd ym Mae Caerdydd a gweithio yn eu hetholaethau; cwrdd â'u hetholwyr, eu cefnogi a'u cynrychioli.

Mae ar Aelodau angen adnoddau i wneud eu swyddi, a hynny yn eu hetholaethau ac yn y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff, cael swyddfeydd yn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli, ac ar gyfer teithio a llety dros nos pan fydd angen iddynt fod yn y Senedd ym Mae Caerdydd.

Mae'r Bwrdd yn nodi pa gostau busnes a chymorth staffio y caiff yr Aelodau eu hawlio, gan gynnwys terfynau neu gyfyngiadau.

> **Mae Aelodau'n rheoli busnesau bach mewn gwirionedd, gyda staff a swyddfeydd**

Mae Aelodau'n cyflogi timau o staff, gan gynnwys gweithwyr achosion neu ymchwilwyr, i'w cefnogi; i helpu eu hetholwyr ac i wneud eu swydd yn y Senedd. Caiff Aelodau benderfynu sefydlu swyddfa neu gynnal 'cymorthfeydd' neu gyfarfodydd yn eu hetholaeth a rhannu gwybodaeth â'u hetholwyr.

Mae pob Aelod yn gweithredu fel busnes bach mewn gwirionedd. Mae'n cyflogi staff ac yn rheoli swyddfeydd, yn ogystal ag ymgymryd â'i ddyletswyddau seneddol craidd.

Costau busnes yw'r rhain, nid 'treuliau' neu 'fanteision'; ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried mai 'treuliau' yw costau staffio a swyddfa mewn busnesau neu sefydliadau eraill. Ni fyddai rhywun yn dweud bod pennaeth ysgol neu Gyfarwyddwr busnes bach yn hawlio 'treuliau' ar gyfer eu staff, eu swyddfeydd neu eu costau gweithredu.

> **Caiff y rhan fwyaf o gyflogeion yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus hawlio ar gyfer costau teithio a llety dros nos wrth weithio oddi cartref**

Fel sy'n wir i'r rhan fwyaf o bobl a gyflogir yn y sector preifat neu yn sefydliadau'r sector cyhoeddus, caiff Aelodau hefyd hawlio ar gyfer teithio a llety dros nos pan fydd angen iddynt aros dros nos yng Nghaerdydd neu deithio i rywle arall yn y DU ar gyfer gwaith. Caiff cyfraddau llety dros nos eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymharu â'r sector cyhoeddus ehangach a seneddau eraill. Dim ond ar ôl i'r Aelod ddarparu derbynebau y telir hawliadau.

Caiff rhai Aelodau, sy'n byw'n rhy bell i ffwrdd o Gaerdydd i deithio i'r Senedd bob dydd, hawlio ar gyfer llety rhent o fewn terfynau penodol. Mae hwn yn fesur

ymarferol i sicrhau y gall Aelodau o gymunedau o bob cwr o Gymru gymryd rhan ym musnes y Senedd ac na fydd yr Aelodau ar eu colled wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Nid yw'r costau hyn yn rhan o gyflog yr Aelodau. Cyflogau staff a chostau swyddfa yw'r rhan fwyaf o'r costau busnes a ysgwyddir gan yr Aelodau.

Caiff holl hawliadau'r Aelodau sydd wedi'u had-dalu ar gyfer costau busnes a staffio eu cyhoeddi ar-lein ar **https://lwfansau.senedd.cymru/**

Drwy osod rheolau clir a chyhoeddi hawliadau ar-lein, mae'r Bwrdd yn annog tryloywder, atebolrwydd a gwerth am arian yn y ffordd y defnyddir arian cyhoeddus.